Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	08 Tachwedd, 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins / Cynghorydd Emrys Wynne
Awdur yr Adroddiad	Manon Celyn Roberts – Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl	Safonau Iaith Gymraeg – Safon 98

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Safonau'r Gymraeg – yn benodol safon 98.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ddyletswydd arnom fel Cyngor, gan ein bod yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, i gael Polisi ar weithredu'r Gymraeg yn fewnol (Safonau 98). Nid oes gennym un ar hyn o bryd ac o ganlyniad yn mynd yn groes i'r Safonau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I roi diweddariad i'r Aelodau ar y camau gweithredu a gymerwyd i gynhyrchu Polisi Gweithredu'r Gymraeg yn fewnol (wele'r atodiad).

4. Manylion yr adroddiad

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn 2015, fel rhan o'r broses gyflwyno i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Crëwyd y Safonau mewn ymateb uniongyrchol i Fesur y Gymraeg (2011) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Cyflwynwyd y Safonau er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen i Sir Ddinbych gydymffurfio â 167 o Safonau sydd wedi cael eu rhannu rhwng pum maes allweddol: Darparu Gwasanaeth; Gwneud Polisïau; Gweithredol.

Cadw Cofnodion a Hyrwyddo. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o'r sefydliad i weithredu'r Safonau hyn.

Dosbarthwyd mandad clir gan y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd yn eu hiaith ddewisedig. Yn ôl y disgwyl, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu'r safonau hyn ers sawl blwyddyn. Er nad oedd llawer o'r safonau yn newydd i'r sefydliad, roedd angen i ni sicrhau bod ymateb cadarnhaol i'w gweithredu ledled y sir a bod cwsmeriaid yn gweld gwell gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymddengys bod y Cyngor yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau yn gyffredinol. Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, sydd â chyfrifoldebau corfforaethol dros y Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â'r safonau. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm o Bencampwyr Iaith Gymraeg sy'n gweithredu'n wirfoddol i hyrwyddo dull gweithio corfforaethol. Mae profion cydymffurfio yn cael eu cynnal ar hap gan sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Y Gymraeg.

Er yr ymddengys ein bod yn cydymffurfio yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal gwaith ymchwil ar y sefydliadau cyhoeddus i gyd ac mae ymchwil diweddar yn dangos nad oes gennym bolisi ar weithredu'r Gymraeg yn fewnol. O ganlyniad mae'n ddyletswydd arnom i lunio'r polisi fel rhan o'n hymdrechion i gydymffurfio â'r safonau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg gan adeiladu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i wella eu hyder i ddefnyddio'r iaith.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna gyllideb ar gyfer datblygu Strategaeth y Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu derbyn gan gyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg.

Un o brif elfennau’r Ddeddf Lles a Chenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau’r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w

Y prif risg yw’r risg yw diffyg cydymffurfio a bod cwyn yn cael ei chyflwyno i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â niwed i enw da’r Cyngor.

Hefyd y risg o beidio â chydymffurfio â chais uniongyrchol gan Gomisiynydd y Gymraeg i lunio polisi ar ddyfarnu grantiau.